# RYDYM YN RECRIWTIO

## Uchafbwyntiau y Swydd












# Tîm y Cogydd - Cwt y Traeth

## Gwybodaeth Allweddol

Swydd Wag: Amrywiaeth o swyddi ar gael, o Chef De Partie i Is-Gogydd
Cyflog: Amrywio o £21,189 i £32,020 yn ddibynnol ar brofiad
Oriau: Oriau rhan amser a llawn amser ar gael

## Y Safle

Mae gennym ni lawer o gyfleoedd i bobl sydd eisiau dilyn gyrfa yn y diwydiant lletygarwch a bwytai. Mae pob un o'n 5 lleoliad yn cynnig rhywbeth ychydig yn wahanol i'r cwsmer, gan gadw at y safonau a'r ansawdd uchaf drwodd draw.

Mae Cwt y Traeth wedi datblygu i fod yn un o brif gyrchfannau ar arfordir Gogledd Cymru, gan gynnig naws Ibiza egsotig, wrth ddarparu prydau wedi'u coginio'n ffres drwy'r dydd, o frecwast llawn i bitsa wedi'i bobi ar garreg wedi'i weini â choctel.

Fel un o leoliadau gorau glan y môr i fwyta ac yfed ar hyd yr arfordir, rydym yn hyderus y bydd yn dymor prysur iawn eto. Y llynedd gwelsom filoedd o gwsmeriaid yn mwynhau ein bwyd ffres a choctels yn yr heulwen. Bydd eleni hyd yn oed yn well, gyda'n cynlluniau diweddaraf i ddatblygu ein cynnig bwyd i fynd gyda bwydlen newydd ffres.

**Mae'r pecyn yma ar gael yn Saesneg hefyd / This pack is also available in English**



# Chef De Partie

Cyflog : £20,812 i £21,575 y flwyddyn (£10.79 i £11.18 yr awr)

## Ynglŷn â'r rôl

Yn y rôl hon, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cogyddion i gynhyrchu prydau blasus i'n cwsmeriaid, er mwyn darparu profiad cwsmeriaid rhagorol.

Fel arfer byddwch yn rheoli un orsaf neu ardal o'r gegin, ac yn gyfrifol am baratoi, coginio a chyflwyno prydau o safon uchel o fewn yr adran.

Byddwch hefyd yn helpu'r Is-Gogydd a'r Prif Gogydd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheolau hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ymhob ardal. Er na fyddwch yn gyfrifol am y fwydlen, hoffem glywed eich syniadau ar sut i'w wella.

## Amdanoch Chi

Byddwch yn angerddol am fwyd, gyda'r gallu i baratoi a choginio ystod o brydau blasus gan ddefnyddio cynhwysion ffres. Mae ein ceginau yn rhedeg yn amserol felly bydd angen i chi fod yn chwaraewr tîm da.

Mae ein cwsmeriaid wedi dod i ddisgwyl prydau o safon uchel, wedi'i weini gyda steil a chyflymder, felly rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu aros yn bwyllog a gweithio'n gyflym.

Yn ddelfrydol, bydd gennych lefel 2 mewn Hylendid Bwyd, yn ogystal â chymhwyster arlwyo/coginio Lefel 2 neu 3 perthnasol, ond rydym yn hoffi buddsoddi yn ein staff, felly byddwn yn hapus i'ch cymhwyso, yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu a thyfu eich gyrfa.



# Cogydd Cyffredinol

Cyflog: £21,575 i £22,777 y flwyddyn (£11.18 i £11.81 yr awr)

## Ynglŷn â'r rôl

Yn y rôl hon, byddwch yn gyfrifol am baratoi a gwneud prydau i archeb ar gyflymdra. Byddwch yn grilio, coginio a ffrio bwyd i archeb, ynghyd â rheoli nifer o archebion a phlatio bwyd. O dan eich arweinyddiaeth chi, bydd y gegin yn rhedeg yn dda.

Byddwch hefyd yn gweithio gyda'r Tîm Rheoli i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheolau hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ymhob ardal. Er na fyddwch yn gyfrifol am y fwydlen, hoffem glywed eich syniadau ar sut i'w wella.

## Amdanoch Chi

Byddwch yn fedrus gyda'r gril, gyda'r gallu i baratoi a choginio ystod o brydau o fyrgers i bitsas a chrempogau. Byddwch yn chwaraewr tîm da sydd â sgiliau arweinyddiaeth i gadw'r gegin i redeg yn effeithlon.

Mae ein cwsmeriaid wedi dod i ddisgwyl prydau o safon uchel, wedi'i weini gyda steil a chyflymder, felly rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu aros yn bwyllog a gweithio'n gyflym.

Yn ddelfrydol, bydd gennych lefel 2 mewn Hylendid Bwyd, yn ogystal â chymhwyster arlwyo/coginio Lefel 2 neu 3 perthnasol, ond rydym yn hoffi buddsoddi yn ein staff, felly byddwn yn hapus i'ch cymhwyso, yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu a thyfu eich gyrfa.



# Is-Gogydd

Cyflog: £29,439 i £32,020 y flwyddyn (£15.26 i £16.60 yr awr)

## Ynglŷn â'r rôl

Yn y rôl hon, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Prif Gogydd i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth i dîm y gegin. Byddwch yn cynorthwyo'r Prif Gogydd i reoli gweithrediadau cefn tŷ, y gadwyn gyflenwi a'r gegin, gan gynorthwyo i gyflawni potensial masnachol llawn y bwyty/caffi. Byddwch yn gyfrifol am wneud argymhellion a phenderfyniadau allweddol i'r uwch dîm rheoli.

Fel yr Is-Gogydd, byddwch yn helpu i ddatblygu a gweithredu bwydlenni creadigol a chost effeithiol sy'n rhagweld galw cwsmeriaid a thueddiadau. Byddwch hefyd yn helpu i greu a gweithredu mentrau a hyrwyddiadau newydd sy'n cyfrannu tuag at dwf masnachol y busnes, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth a hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ymhob ardal.

## Amdanoch Chi

Byddwch yn Is-Gogydd profiadol gyda'r gallu i reoli tîm cegin brysur. Byddwch yn fodel rôl coginio angerddol, gyda sgiliau pobl rhagorol. Bydd ein hunigolyn delfrydol yn hynod o drefnus ac yn gallu defnyddio eu mentergarwch i ddatrys problemau yn gyflym ac yn effeithiol, gan aros yn bwyllog mewn cegin brysur.

Yn ddelfrydol, bydd gennych gymhwyster lefel 3 neu 4, fodd bynnag rydym yn hapus i'ch cefnogi chi i gyflawni hyn os nad ydych eisoes wedi gwneud.

Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain eraill ac felly mae sgiliau arweinyddiaeth yn bwysig ar gyfer y swydd hon.



# Tîm y Cogydd - Cwt y Traeth

## Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio sy'n arwain y sector o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd, a mannau gwerthu bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a chaffi rhagorol ar draws Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau oll o'r sector preifat, tra'n darparu cydbwysedd bywyd-gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn un tîm, pob un yn gweithio gyda'n gilydd tuag at yr un nod cyffredin ond yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob unigolyn. Rydyn ni'n ymddiried, yn gofalu ac yn parchu ein gilydd, oherwydd rydyn ni'n credu bod hynny'n ein gwneud ni'n gryfach. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd



# Tîm y Cogydd - Cwt y Traeth

Mae ein Timoedd Cegin a Chogyddion yn gweithio ar Oriau Blynyddol, sy'n golygu y bydd gennych rota gwaith bob wythnos, ond gan fod gennym gyfnodau mwy prysur a thawel, efallai y byddwch yn gweithio llai ar rai adegau o'r flwyddyn, a mwy ar adegau eraill, ond gyda thâl cyson bob mis. Gallwch weithio hyd at 48 awr yr wythnos yn ystod Haf prysur ac yna lleihau eich oriau unwaith i'r tymor ddod i ben er mwyn cydbwyso hyn. Mae contract llawn amser ar gyfartaledd yn 37 awr yr wythnos.

## Buddion Staff

Mae ein gweithlu yn bwysig iawn i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Amrywiaeth o bolisïau teulu i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys seibiannau gyrfa

Gwnewch gais drwy ebostio eich CV i:
**Pobl@hamddensirddinbych.co.uk**